CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD
25/09/2026

Yn bresennol: Cadeirydd: Y Cynghorydd Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

Y Cynghorwyr: Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint), Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd), Nicola Roberts (Cyngor Sir Ynys Môn), Chris Cater (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Hugh Evans (Cyngor Sir Ddinbych), ac Ifor Glyn Lloyd (Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

Prif Weithredwyr Cynghorau Cyfansoddol: David Fitzsimon (Cyngor Sir y Fflint), Helen White (Cyngor Sir Ddinbych), Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Alwyn Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd), a Jonathan Cawley (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

Swyddogion eraill yn bresennol: Alwen Williams (Prif Weithredwr y Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC)), Hedd Vaughan-Evans (Cyfarwyddwr Portffolio – Uchelgais Gogledd Cymru), Dewi Morgan (Prif Swyddog Cyllid – Cyngor Gwynedd) Sian Pugh (Pennaeth Cynorthwyol Cyllid – Cyngor Gwynedd), Sara Jane Jones (Uwch Gyfrifydd – Cyngor Gwynedd), Mark Watkins (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro dros dro – Uchelgais Gogledd Cymru), Helen Edwards (Dirprwy Swyddog Monitro – Uchelgais Gogledd Cymru), David Hole (Rheolwr Rhaglen Gweithredu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig), Adam Graham (Uwch Swyddog Trafnidiaeth – Uchelgais Gogledd Cymru), Yvonne Thomas (Rheolwr Archwilio - Archwilio Cymru), Siwan Glyn (Archwilio Cymru), Elen Wyn Owen (Swyddog Cefnogi Corfforaethol – Uchelgais Gogledd Cymru), Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth – Cyngor Gwynedd), a Sera Whitley (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth – Cyngor Gwynedd).

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:

- Cynghorydd Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) gyda Chynghorydd Chris Cater yn dirprwyo
- Cynghorydd Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn) gyda Chynghorydd Nicola Roberts yn dirprwyo
- Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint) gyda David Fitzsimon yn dirprwyo
- Ffion Williams (Uwch Swyddog Gweithrediadau – Uchelgais Gogledd Cymru)

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol.

3. ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER 2026/27

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Gary Pritchard yn Is-gadeirydd y Cyd-bwyllgor ar gyfer 2026/27.

4. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 19 o Fehefin, 2026 fel rhai cywir.

6. DATGANIAD LLYWODRAETHU 2025/26

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Mark Watkins, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro'r CBC.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwy Datganiad Llywodraethiant Blynyddol 2025/26 yn Atodiad 1 fel datganiad y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar reolaeth fewnol at ddibenion Rheoliad 5 Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd).

Nodwyd a chymeradwywyd y Cynllun Gwella Llywodraethiant ar gyfer 2026/27 sydd wedi'i gynnwys yn y Datganiad.

Awdurdodi'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr i lofnodi'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad, gan nodi bod y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn cofnodi canlyniad yr adolygiad blynyddol o drefniadau llywodraethu a threfniadau rheolaeth fewnol Uchelgais Gogledd Cymru. Adroddwyd bod y casgliad yn cadarnhau bod y fframwaith llywodraethu yn darparu sail resymol ar gyfer cyflawni swyddogaethau'r sefydliad yn gyfreithlon, yn atebol, ac yn effeithiol yn ystod 2025-26.

Eglurwyd hefyd bod y Datganiad yn darparu sicrwydd rhesymol yn hytrach ne sicrwydd llwyr gan fod Uchelgais Gogledd Cymru yn sefydliad sy'n dal i aeddfedu, ac yn fwriadol onest ynghylch rhai trefniadau sy'n dal i gael eu datblygu. Eglurwyd bod y trefniadau hyn, sy'n cynnwys rheoli risg corfforaethol, fframwaith cyfansoddiadol a gwneud penderfyniadau, llywodraethu moesegol, a gwydnwch gwasanaeth, wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gwella Llywodraethu ynghyd a'r swyddogion cyfrifol a'r dyddiadau targed. Cadarnhawyd y bydd cynnydd y Cynllun Gwella Llywodraethu yn cael ei adrodd yn rheolaidd i'r CBC.

Esboniwyd y bwriad i gyflwyno'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol i'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 15 Medi, ond oherwydd problemau yn ymwneud â chworwm, gohiriwyd y cyfarfod. Cadarnhawyd y bydd y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio unwaith y bydd dyddiad newydd wedi'i gadarnhau, ac y bydd unrhyw argymhellion gan yr Is-bwyllgor yn cael eu hadrodd i'r CBC.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch cyfeirnod y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol at drefniadau craffu'r CBC. Cadarnhawyd bod y CBC wrthi'n cynorthwyo'r cynghorau cyfansoddol i sefydlu Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu, a bod materion fel y Cytundeb Twf eisoes wedi'u trafod o fewn pwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol. Eglurwyd mai mater i'r cynghorau cyfansoddol yw sefydlu'r Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu neu sefydlu unrhyw drefniadau craffu ffurfiol. Yn dilyn cyfarfod diweddar gyda phrif weithredwyr y cynghorau cyfansoddol, eglurwyd eu bod wedi gofyn i Swyddog Monitro'r CBC ddarparu mwy o fanylion ynghylch y gofyniad capasiti penodol sydd eu hangen gan y cynghorau cyfansoddol, er mwyn iddynt ddeall yn well sut y gellir darparu adnoddau ar gyfer hynny.

Nodwyd, yn absenoldeb unrhyw bwyllgor craffu ffurfiol, bod y cyfrifoldeb yn disgyn ar bwyllgorau craffu lleol ym mhob cyngor cyfansoddol i gyflawni'r swyddogaethau craffu os dymunant wneud hynny. Fodd bynnag, tynnwyd sylw bod yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r CBC a'r mecanweithiau adrodd rheolaidd, sy'n rhan o'r fframwaith rheoli perfformiad, yn cyflawni rhywfaint o waith craffu yn barod.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch yr amserlen ar gyfer sefydlu'r Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu, ail-bwysleisiwyd mai mater i'r cynghorau cyfansoddol yw sefydlu unrhyw drefniadau craffu ffurfiol. Nodwyd, er nad oes rhwymedigaeth cyfreithiol i wneud hynny, bod disgwyliad gan Lywodraeth Cymru o drefniant craffu ffurfiol ar waith. Tynnwyd sylw bod gan bob un o'r cynghorau cyfansoddol bwyllgorau craffu sydd eisoes yn gweithredu, ac os ydynt yn dymuno craffu ar fater penodol yn ymwneud â busnes y CBC, fod ganddynt ryddid llwyr i wneud hynny. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod gwendid llywodraethu yn bodoli oherwydd nad oes trefniant rhanbarthol wedi'i cydlynu eto.

7. DATGANIAD O GYFRIFON CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD AM 2025/26 A'R ARCHWILIAD PERTHNASOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC) a Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid.

PENDERFYNWYD:

Ystyriwyd a chymeradwywyd yr adroddiad ISA 260 gan Archwilio Cymru ar gyfer y CBC.

Ystyriwyd a chymeradwywyd y Datganiad o Gyfrifon terfynol y CBC (ôl archwiliad) ar gyfer 2025/26.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd cyfrifon terfynol y CBC, ynghyd ag adroddiad ISA260, sef adroddiad gan yr archwilydd allanol ar gyfer Uchelgais Gogledd Cymru – Archwilio Cymru. Adroddwyd bod y Datganiad Cyfrifon blynyddol wedi'i baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol, ac mae hynny yn un o'r pethau sy'n cael eu gwirio gan Archwilio Cymru.

Eglurwyd bod 2025/26 yn flwyddyn allweddol wrth baratoi'r datganiad o gyfrifon gan mai dyma'r tro cyntaf i'r CBC gael ei ystyried fel corff perthnasol mwy o faint yn dilyn trosglwyddiad y Cynllun Twf, sydd wedi golygu'r angen i baratoi set lawn o gyfrifon.

Amlygwyd bod y wybodaeth yn y Datganiad o Gyfrifon eisoes wedi'i gyflwyno i'r CBC yn ei gyfarfod ym mis Mehefin, ond fel rhan o'r Sefyllfa Alldro Refeniw a Chyfalaf ar gyfer 2025/26.

Esboniwyd bod y datganiadau bellach wedi cael eu hadolygu gan Archwilio Cymru. Cadarnhawyd bod yr archwiliwr yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni unwaith y bydd y CBC wedi rhoi Llythyr Sylwadau i Archwilio Cymru. Eglurwyd y bydd angen i'r Cadeirydd a'r Swyddog Adran 151 arwyddo'r Llythyr Sylwadau.

Tynnwyd sylw bod llawer o waith caled a pharatoi wedi digwydd yn ystod y broses archwilio, a bod y datganiad cyfrifon yn rhai cymhleth a hir. Nodwyd bod y broses yn fwy cymhleth na'r disgwylir gan mai dyma set gyntaf o gyfrifon llawn y CBC, a bod angen gwaith archwilio ychwanegol i allu ymateb i'r risgiau sydd wedi nodi yn yr adroddiad.

Hysbyswyd yr aelodau fod rhai elfennau o'r archwiliad yn parhau pan ddosbarthwyd yr adroddiad, ond cadarnhawyd bod y gwaith bellach wedi'i gwblhau ac na chododd unrhyw faterion ychwanegol o ganlyniad i hynny.

Nodwyd bod Archwilio Cymru wedi ail asesu'r sail ar gyfer cyfrifon lefel materol ar ôl derbyn cyfrifon drafft, a'u bod yn defnyddio asedau twf bellach yn lle twf gwariant. Cadarnhawyd bod hyn yn sicrhau bod y dull a ddefnyddir yn fwy priodol i natur y sefydliad.

Nodwyd bod rhai diwygiadau wedi'u gwneud i'r nodiadau ar y cyfrifon. Cadarnhawyd bod y cywiriadau hyn wedi'u cynnwys yn y fersiwn o'r cyfrifon ger bron yr aelodau yn y cyfarfod heddiw, ac nad ydynt yn effeithio ar y sefyllfa ariannol gyffredinol. Ymhelaethwyd nad oes materion sylweddol i'w hadrodd i'r CBC a chadarnhawyd bod hwn yn ganlyniad cadarnhaol ac yn darparu sicrwydd cadarn.

Diolchwyd i'r swyddogion a'r archwiliwr oedd yn rhan o'r broses am eu hamser a'u hymdrechion.

8. SEFYLLFA REFENIW A CHYFALAF 2026/27 – ADOLYGIAD DIWEDD GORFFENNAF 2026

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC) a Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid.

PENDERFYNWYD:

Penderfynwyd:

- Nodi a derbyn yr adolygiad refeniw ar ddiwedd Gorffennaf 2026 ar gyfer CBC (Atodiad 1), gan gynnwys uchafswm o £39,874 i'w drosglwyddo o'r gronfa wrth gefn (yn ychwanegol at y £624,590 a gymeradwywyd yng nghyllideb 2026/27) i adael sefyllfa niwtral (gyda'r ffigwr terfynol i'w gadarnhau pan gyflwynir adroddiad alldro 2026/27).

- Nodi a derbyn yr adolygiad refeniw a chyfalaf diwedd Gorffennaf 2026 ar gyfer y Cynllun Twf (Atodiad 2), gan gynnwys y sefyllfa cronfeydd wrth gefn (Atodiad 3).

- Nodi a derbyn proffil gwariant cyfalaf diwygiedig y Cynllun Twf (Atodiad 4).

- Nodi a derbyn yr adolygiad refeniw diwedd Gorffennaf 2026 ar gyfer y Parth Buddsoddi (Atodiad 5), gan gynnwys y defnydd o'r llog ar falensau Parth Buddsoddi i adael sefyllfa niwtral ar gyfer 2026/27.

- Nodi a derbyn yr adolygiad refeniw diwedd Gorffennaf 2026 ar gyfer yr PSRh (Atodiad 6).

- Cymeradwyo'r trosglwyddiadau yng nghyllidebau'r CBC, y Cynllun Twf a'r Parth Buddsoddi a nodir yn Atodiad 7.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad, gan fanylu ar ragamcanion o sefyllfa alldro refeniw a chyfalaf y CBC ar gyfer 2026/27.

Esboniwyd bod yr adroddiad yn manylu ar ragamcan o sefyllfa alldro'r elfennau Cynllunio Strategol, Trafnidiaeth a Chorfforaethol eu natur, gyda gorwariant o bron i £40 mil yn cael ei ragweld erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Cyflwynwyd sefyllfa refeniw ragamcan y Cytundeb Twf, gan nodi rhagolwg o danwariant o £288,000 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Nodwyd bod hyn o ganlyniad danwariant ar gostau staff, rolau llywodraethu ychwanegol, gwasanaethau cymorth y corff atebol, a chymorth allanol ym meysydd cyfreithiol, ariannol a chaffael ar gyfer y prosiectau.

Amlygwyd, os bydd y tanwariant yn parhau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, y byddai'r cyfraniadau grant a dynnwyd o'r Cynllun Twf neu'r gronfa wrth gefn yn cael eu haddasu i gyflawni sefyllfa niwtral ar gyfer y flwyddyn. Cadarnhawyd y byddai'r ffynonellau incwm hyn ar gael wedyn i ariannu cyllidebau yn y dyfodol a lliniaru unrhyw gynnydd mewn cyfraniadau partneriaid. Eglurwyd ymhellach mai unrhyw gyfraniadau partneriaid - sy'n cyfrif am tua 25% o'r gyllideb yn unig - yw'r unig ffynonellau ariannu parhaol, tra bod gweddill y ffynonellau yn rhai dros dro yn unig.

Cyflwynwyd balansau cronfa'r Cytundeb Twf fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2026, y symudiadau yn ystod y flwyddyn, a'r balansau a ragwelir ar gyfer 31 Mawrth 2027. Eglurwyd bod y gronfa llog o £5 miliwn wedi'i neilltuo i ariannu costau benthyca yn y blynyddoedd i ddod, gan dalu am y cyfnod pan ysgogir gwariant ar gynlluniau cyfalaf cyn derbyn cyllid grant gan y Llywodraeth. Eglurwyd ymhellach fod y gronfa adnoddau wedi'i dyrannu i dalu am ofynion y llywodraeth, costau datblygu prosiectau, a chynnal capasiti Swyddfa Rheoli'r Portffolio.

Cyflwynwyd proffil cyfalaf diwygiedig ar gyfer y Cynllun Twf, gan nodi, er bod gwariant o £51.26 miliwn wedi'i ragweld ar gyfer 2026/27, bod hyn yn £15.81 miliwn yn llai na'r proffil yn y gyllideb a gymeradwywyd ym mis Ionawr. Tynnwyd sylw bod hyn yn ganlyniad i oedi ar brosiectau, fodd bynnag, nodwyd bod cyflawni prosiect Porth Busnes a gwariant ar brosiectau ar y rhestr wrth gefn wedi lleihau'r oedi hwnnw.

Ymhelaethwyd bod yr adroddiad yn nodi'r gwariant a'r incwm a ragwelir ar gyfer y Parth Buddsoddi, a sefyllfa ariannol a ragwelir ar gyfer y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol. Cadarnhawyd mai'r ddau yn dangos canlyniad niwtral ar gyfer y flwyddyn.

9. STRATEGAETH A CHYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2026-27 – 2029/30

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC).

PENDERFYNWYD:

Rhoi arweiniad i swyddogion ynghylch parodrwydd y CBC i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn wrth baratoi'r gyllideb ar gyfer 2026/27.

Penderfynwyd gofyn i swyddogion ddarparu opsiwn hybrid sy'n defnyddio 80% o'r reserfau defnyddiadwy amcangyfrifedig sydd ar gael ar 31 Mawrth 2027 fel sail, a fyddai'n golygu cyflwyno opsiwn sy'n disgyn rhwng opsiwn 3 ac opsiwn 4 i'r Aelodau yng nghyfarfod nesaf y CBC.

TRAFODAETH

Cyflynwyd yr adroddiad, gan dynnu sylw i wall ym mharagraff 2.1 o'r penderfyniad a geisir, lle nodwyd cyfeiriad at baratoi'r gyllideb ar gyfer 2026/27. Eglurwyd bod y gyllideb ar gyfer 2026/27 eisoes wedi'i gosod ym mis Ionawr 2026 ac y dylai'r penderfyniad a geisiwyd gyfeirio at osod y gyllideb ar gyfer 2027/28.

Hysbyswyd yr aelodau mai dyma'r tro cyntaf i'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig gael ei gyflwyno i'r CBC, gan nodi'r gobaith y bydd aelodau'n gallu gweld beth mae'r swyddogion cyllidol yn ragweld fel gofynion adnoddau'r CBC ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Cyflwynwyd pedair egwyddor strategol ar gyfer cynllunio ariannol Uchelgais Gogledd Cymru:

- Bydd y CBC yn asesu penderfyniadau dros yr amserlen gynllunio lawn, gan alinio adnoddau ac ymrwymiadau â chyfrifoldebau statudol a blaenoriaethau rhanbarthol y cytunwyd arnynt.
- Bydd y CBC yn rheoli incwm, cronfeydd wrth gefn, llif arian, trysorlys, benthyca ac arian wrth gefn fel system integredig o wydnwch ariannol.
- Bydd y CBC yn sicrhau bod gallu sefydliadol, gallu, trefniadau llywodraethu ac adnoddau ariannol yn datblygu yn unol â'i gyfrifoldebau statudol sy'n ehangu, ei bortffolio rhaglenni a'i rôl fel corff cyhoeddus corfforedig.
- Bydd y CBC yn gwneud rhagdybiaethau, risgiau, dewisiadau ac atebolrwydd yn weladwy, gan gefnogi penderfyniadau gwybodus yr Aelodau ac ymgysylltu'n gynnar â chyrff sy'n talu ardoll.

Pwysleisiwyd nad ydi'r adroddiad hwn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2027/28, gan bydd hwnnw'n cael ei gyflwyno i'r CBC i'w benderfynu'n derfynol ym mis Ionawr 2027, yn dilyn cael ei hystyried gan yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Rhagfyr 2026. Cadarnhawyd mai bwriad yr adroddiad hwn yw rhoi amlinelliad i aelodau o sut y bydd y gyllideb ar gyfer 2027/28 yn debygol o edrych, a darparu cyfle i aelodau roi arweiniad i swyddogion fel rhan o'r broses o baratoi'r gyllideb.

Atgoffwyd yr aelodau eu bod wedi gofyn am wybodaeth bellach gan swyddogion yng nghyfarfod y CBC ym mis Mehefin, ynghylch â: lefelau staffio'r CBC dros y tair blynedd diwethaf a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol; darparu dadansoddiad o'r tanwariant a'r defnydd o gronfeydd wrth gefn ar gyfer y flwyddyn nesaf, ynghyd â'r ganran ofynnol o gronfeydd wrth gefn; ac ystyried unrhyw rwymedigaethau ariannol sy'n deillio o ohirio'r ardoll ar gyfer 2027/28.

Eglurwyd nad yw rhewi'r ardoll yn opsiwn bosib ac, o ganlyniad, nid yw'n bosib peidio â chodi ardoll o gwbl yn 2027/28 gan na fyddai hynny'n galluogi'r CBC i bennu cyllideb gyfreithlon ar gyfer 2027/28. Nodwyd y tri opsiwn arall oedd ar gael i'r aelodau, a phwysleisiwyd mai opsiynau 3 a 4 yw'r opsiynau realistig.

Adroddwyd ar swyddi presennol o fewn y CBC, yn ogystal â rhagolwg o swyddi ychwanegol a fydd eu hangen dros y tair blynedd nesaf. Ymhelaethwyd ar sut y mae costau staffio'r CBC wedi esblygu dros y pedair blynedd ariannol ddiwethaf.

Adroddwyd bod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn nodi'r opsiynau ar gyfer delio â chronfeydd wrth gefn y CBC. Eglurwyd nad yw'r cronfeydd wrth gefn yn cynnwys rhai'r Fargen Twf, y Parth Buddsoddi, na'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, a bod y rhain i gyd wedi'u clustnodi at ddibenion penodol ac yn cael eu hariannu drwy grantiau ar wahân neu gytundebau contractiol. Cadarnhawyd mai'r cronfeydd wrth gefn sy'n cael eu cyfeirio atynt yn yr adroddiad yw'r rhai sy'n parhau ar gyfer y CBC, yn rhai sy'n cyfeirio at swyddogaethau'r CBC, ac yn cael eu cefnogi gan yr ardoll. Mae'r swyddogaethau hyn yn

ymwneud â chraidd corfforaethol y CBC, ac yn cynnwys y swyddogaethau sy'n ofynnol i redeg corff awdurdod lleol, y swyddogaeth trafnidiaeth rhanbarthol a'r swyddogaeth cynllunio strategol.

Eglurwyd bod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'i ddatblygu drwy ystyried y swyddogaethau penodol hyn a'r gwariant disgwyliedig dros y tair blynedd ariannol nesaf. Darparwyd eglurhad ar sut y gellir ariannu'r swyddogaethau hyn.

Adroddwyd bod cyfanswm cronfeydd wrth gefn o tua £1.6 miliwn ar 31 Mawrth 2026, ond eglurwyd bod y CBC eisoes wedi cymeradwyo defnyddio tua £625,000 o'r cronfeydd hyn fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb ar gyfer 2026/27. Ymhelaethwyd, fel rhan o'r adolygiad ariannol mis Gorffennaf 2026, disgwylir y bydd £40,000 arall o'r cronfeydd hyn yn cael ei ddefnyddio yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol i ymdopi â gorwariant disgwyliedig. Cadarnhawyd bod disgwyl i gyfanswm cronfeydd wrth gefn y CBC ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol, heb gynnwys y cronfeydd sy'n ymwneud â'r Fargen Twf, y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, a'r Parth Buddsoddi, fod yn £971,543.

Tynnwyd sylw nad oes fformiwla benodol ar gyfer pennu lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol, ond rheol gyffredinol ydi bod 5% o gyfanswm y gwariant refeniw yn lefel ddoeth i'w chadw fel cronfeydd wrth gefn. Argymhellwyd cadw tua £132,000 mewn cronfeydd wrth gefn fel balansau cyffredinol, gan adael cyfanswm o £839,851 ar gael ar ddechrau 2027/28 i'w defnyddio wrth bennu'r gyllideb.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch pa opsiwn y byddai'r Swyddog Adran 151 yn ei argymell, eglurwyd nad yw opsiwn 1 na 2 yn opsiynau realistig, a bod opsiwn 3 neu 4 yn well. Fodd bynnag, nodwyd mai opsiwn 3 fyddai'r dewis a ffafrir, gan y byddai'n galluogi'r CBC i gadw mwy o gronfeydd wrth gefn ac yn llai tebygol o effeithio ar yr ardoll ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Nodwyd na fyddai rhai aelodau yn cefnogi opsiwn 3 ac y byddai'n well ganddynt gefnogi opsiwn 4, oherwydd y pwysau ariannol presennol ar yr awdurdodau lleol. Gofynnwyd a fyddai'n bosibl i swyddogion ddarparu opsiwn arall rhwng opsiwn 3 ac opsiwn 4, a chynigiwyd y dylid darparu opsiwn arall sy'n defnyddio 80% o'r cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy amcangyfrifedig sydd ar gael ar 31 Mawrth 2027 fel sail. Nodwyd y byddai hyn yn gadael 20% mewn cronfeydd wrth gefn, yn ogystal â'r 5% sydd wedi'u clustnodi mewn cronfeydd wrth gefn. Cadarnhawyd y byddai'r opsiwn hwn yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y CBC.

Gofynnwyd hefyd a fyddai'n bosib i swyddogion ddarparu dadansoddiad o gost yr opsiwn i bob awdurdod lleol unigol, ac a ellid ystyried effaith lleihau adnoddau er mwyn lleihau'r ardoll ymhellach. Nodwyd fod y CBC yn sefydliad sy'n tyfu ac y bydd y galw am adnoddau yn cynyddu, ac felly ei bod yn annhebygol y bydd yn bosib lleihau adnoddau.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y gofyniad cyfreithiol i'r awdurdodau lleol gefnogi'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Cadarnhawyd bod rhwymedigaeth gyfreithiol ar gynghorau lleol i ymgysylltu â Cyd-bwyllgorau Corfforedig, a bod y Senedd yn disgwyl i'r awdurdodau lleol ddarparu cefnogaeth ariannol i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yng Nghymru. Eglurwyd ymhellach fod graddau'r gefnogaeth ariannol a ddarperir gan awdurdodau lleol yn amrywio o ranbarth i ranbarth yng Nghymru, ac yn dibynnu ar sefyllfa ariannol yr awdurdodau lleol, a bod y penderfyniad yn un sydd i'w wneud gan y cynghorau unigol. Hysbyswyd yr aelodau os ydynt o'r farn bod y model hwn yn annheg, y dylent gyflwyno sylwadau yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.

Gofynnwyd cwestiwn ynghylch a fyddai'n bosib arafu'r broses recriwtio er mwyn caniatáu mwy o hyblygrwydd ariannol. Nodwyd bod yr adroddiad yn dangos sut mae'r CBC eisoes

wedi ystyried y ffordd orau o sicrhau adnoddau a lefelau staffio dros y tair blynedd ariannol nesaf, er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol ei hun. Ymhelaethwyd bod y CBC yn gyfrifol am swm sylweddol o arian cyhoeddus, ac na fyddai'n bosib arafu recriwtio staff hanfodol.

Diolchwyd i'r aelodau am eu trafodaeth, gan nodi nad yw'r opsiynau'n rhai hawdd, o ystyried bod bob awdurdod lleol yn gweithredu o dan amgylchiadau anodd. Pwysleisiwyd nad oes gan y CBC fodel ariannu cynaliadwy, a'i fod yn dibynnu ar gontractau cyfnodau penodol ac adnoddau dros dro neu ymgynghorol, a cydnabuwyd bod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn ganlyniad i hynny.

Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith.

10. TREFNIADAU GWNEUD PENDERFYNIADAU AR GYFER RHEOLI'R GRONFA DRAFNIDIAETH RANBARTHOL YN YSTOD Y FLWYDDYN

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Adam Graham, Uwch Swyddog Trafnidiaeth.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwy dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol, y Swyddog Monitro, y Prif Swyddog Cyllid ac arweinwyr trafnidiaeth awdurdodau lleol perthnasol, i gymeradwyo a chyflwyno ceisiadau am newid rhanbarthol i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â rheolaeth y Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol yn ystod y flwyddyn.

Nodwyd mai Llywodraeth Cymru fydd yn parhau i wneud y penderfyniadau grant terfynol o ran y Gronfa Drafnidiaeth Rhanbarthol.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad, a thynnwyd sylw bod y Gronfa Trafnidiaeth Rhanbarthol yn un o'r prif ffynonellau cyllid ar gyfer cynlluniau a gyflwynir drwy'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Atgoffwyd yr aelodau bod y Rhaglen wedi'i chymeradwyo gan y CBC yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd y llynedd, ac wedi'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru cyn hynny. Adroddwyd bod y CBC bellach yn gyfrifol am reoli cyflawniad y cynlluniau a gwariant y gyllideb.

Eglurwyd y bydd newidiadau o ran tanwariant a newidiadau i'r Rhaglen yn digwydd wrth i'r cynlluniau symud yn eu blaenau, a bod yr adroddiad yn ceisio awdurdod dirprwyedig i alluogi ymatebion mwy hyblyg i'r newidiadau hynny. Cadarnhawyd bod y cynnig hwn wedi'i gyflwyno i'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol ym mis Gorffennaf, a'u bod wedi argymell ei gymeradwyo i'r CBC, gan nodi bod unrhyw benderfyniadau terfynol ynghylch newidiadau i'r rhaglen yn eistedd gyda Llywodraeth Cymru.

11. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2025/26

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Prif Weithredwr.

PENDERFYNWYD:

Penderfynwyd gohirio'r penderfyniad gan nad oedd cworwm i'r cyfarfod bellach.

12. DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN TRAWSNEWID A GWELLA

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Prif Weithredwr ac Uwch Berchennog Cyfrifol y Rhaglen a Dave Hole, Arweinydd y Rhaglen.

PENDERFYNWYD:

Penderfynwyd gohirio'r penderfyniad gan nad oedd cworwm i'r cyfarfod bellach.

13. CYNLLUN DEISEBAU CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Helen Edwards, Dirprwy Swyddog Monitro.

PENDERFYNWYD:

Penderfynwyd gohirio'r penderfyniad gan nad oedd cworwm i'r cyfarfod bellach.

14. SEFYDLU IS-BWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Helen Edwards, Dirprwy Swyddog Monitro.

PENDERFYNWYD:

Penderfynwyd gohirio'r penderfyniad gan nad oedd cworwm i'r cyfarfod bellach.

15. NEWIDIADAU I AELODAETH IS-BWYLLGORAU'R CBC A PHENODIAD AELOD LLEYG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Mark Watkins, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro'r CBC.

PENDERFYNWYD:

Penderfynwyd gohirio'r penderfyniad gan nad oedd cworwm i'r cyfarfod bellach.

Dechreuodd y cyfarfod am 13:30 a daeth i ben am 15:15.

_____

(Cadeirydd)